# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 17eg o Ebrill 2023 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Richard Jones Evans, Alan H Jones, Arwel Pierce, Geraint Edwards, Richard C Evans

1. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr: Geraint Evans,

Cafwyd wybod bod y Cynghorydd Geraint Evans i ffwrdd oherwydd salwch. Dymunwyd gwellhad buon iddo a phenderfynwyd anfon cerdyn ato.

2. Datgan diddordeb: Dim

3. Derbyn cofnodion 20 Fawrth 2023:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion yng nghyfarfod mis nesaf.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Scottish Power | Trydan | 101837 | £69.14 |
| B Gwilym | Cyflog | 101838 | £210.26 |
| Cyllid a Thollau EM | Treth | 101839 | £52.40 |
| BJ Owen | Pafiliwn | 101840 | £1,360.00 |

Nodwyd bod angen wasier newydd yn un o'r tapiau yn y Pafiliwn a bod drws yr hysbysfwrdd yn aros sylw.

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

5. Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor Tref Tywyn – Afon Fathew / pryder am lifogydd - diweddariad:

Adroddwyd bod hwrdd wedi marw yn gorwedd mewn ffos.

**PENDERFYNIAD:** I anfon llythyr at y tirfeddiannwr i'w hysbysu bod un o'i stoc wedi marw ac yn gorwedd mewn ffos.
I drafod y pryder am lifogydd yng nghyfarfod nesaf o'r cyngor fel eitem ar yr agenda.

6. Ysbyty Tywyn a'r Cylch - cau ward cleifion mewnol dros dro:

Adroddwyd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyhoeddi bod ward cleifion mewnol yn Ysbyty Tywyn yn cau ar sail dros dro, a hynny oherwydd diffyg staff.

Cafwyd wybod bod ymgyrch wedi cychwyn i geisio sicrhau bod y ward yn ail-agor a bod grŵp ymgyrchu yn cyfarfod yn llyfrgell Tywyn.

Nodwyd mai bwriad y Bwrdd Iechyd yw ail-agor y ward ymhen tair mis pe byddent yn llwyddiannus yn denu nyrsys newydd.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Y Cynghorydd Bethan Lawton i drafod gyda Chynghorau Cymuned Llanfihangel-y-Pennant a Chyngor Cymuned Llanegryn ar ran Cyngor Cymuned Bryncrug er mwyn ceisio trefnu cyfarfod ar y cyd. Pob cynghorydd o Gyngor Cymuned Bryncrug i dderbyn gwahoddiad i unrhyw gyfarfod sydd yn cael ei drefnu.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Tir ger Bryn Erwas, Bryncrug, LL36 9PU (NP5/55/148E):

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad. I ddatgan cefnogaeth i'r cais cynllunio.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryr - Adroddiad Adolygu Drafft Cynllun Datblygu Lleol Eryri:

**PENDERFYNIAD:** Cynghorwyr Arwel Pierce a Richard C Evans i edrych ar yr adroddiad ac i gynnig argymhelliad i Gyngor Cymuned Bryncrug o unrhyw sylw/sylwadau i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio.

9. Trosglwyddo'r cae chwarae i Elusen Dolgoch - diweddariad:

Yr oedd Cyfreithwyr y Cyngor wedi derbyn ymateb gan Gyngor Gwynedd a dogfen Deed of Covenant wedi ei dderbyn, a bydd angen i'r Elusen ei arwyddo.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

10. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-contractwr wedi atgyweirio drysau'r Pafiliwn
-Toiledau yn fudr
-Ystafell y dyfarnwr yn fudr
-Bagiau a chortyn yn cael eu gadael allan gan y Clwb Pêl-droed
-Gefyn (shackle) angen sylw

Cafwyd wybod bod rhai o'r pentrefwyr yn bwriadu cynnal digwyddiad picnic yn y cae chwarae dros benwythnos Coroni Brenin Siarl y Trydydd. Gyda'r picnic yn ddigwyddiad answyddogol ag unigolion yn gyfrifon am drefnu eu picnic eu hunan a'u diogelwch.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I sicrhau bod drysau'r toiledau yn y Pafiliwn ar agor ar gyfer penwythnos y Coroni ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sydd yn bwriadu cael picnic ar liwt eu hunan yn y cae chwarae.

11. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:
-bin baw cŵn ym Mhen Parc wedi ei symud gan Gyngor Gwynedd
-baw cŵn yn parhau i fod yn broblem yn y pentref
-yn derbyn nifer o alwadau gan etholwyr yn pryderu am iechyd a datblygiadau diweddar gyda'r Ysbyty
-ym mis Medi bydd Ysgol Craig Aderyn yn dathlu ei ben-blwydd yn 10-oed
-yn parhau i fynychu cyfarfodydd gyda'r Bwrdd Iechyd ac yn ceisio denu staff meddygol fel doctoriaid a nyrsys i'r ardal.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

12. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

**PENDERFYNIAD:** Nid oedd eitem brys.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:10pm

Llofnod y Cadeirydd ............................................................